



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mawrth 2013
Rhifyn 194

Oedfaon mis Mawrth

- 3 Mawrth: Bore: **Y Parchg Harri Owain Jones**
Hwyr (4pm) - Uno yn **Salem**
- 10 Mawrth: Bore a Hwyr - **Y Gweinidog** Oedfa deulu Sul y Fam (10am)
- 17 Mawrth: Bore a Hwyr: **Y Parchg Bryn Williams, Pwllheli**
- 24 Mawrth: Bore a Hwyr - **Y Gweinidog** Oedfa Sul y Blodau (10am)
- 31 Mawrth: Bore: **Y Gweinidog** Oedfa Sul y Pasg. Gweinyddir y Cymun (10am)
Hwyr (4pm): Oedfa Undebol yn **Salem**
- 7 Ebrill : Bore: **Y Parchg Athro Gwilym H Jones**; Hwyr: Salem (5pm)

Pwddin a Phaned a Chyngerdd gan Blant Seilo

Nos Fawrth 19 Mawrth

Mynediad drwy docyn: £3 a £1 i blant.

Digwyddiadau Mis Mawrth

- Dydd Gwener 1 Mawrth - Oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn Salem
- Nos Lun 4 Mawrth (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol:**
Swper Gŵyl Ddewi gyda'r Parchg Ddr Huw John Hughes
- Nos Fercher 6 Mawrth (7pm) - **Seiat y Grawys** yn Noddfa
- Nos Lun 11 Mawrth (7pm) - **Cymdeithas Chwiorydd Seilo** - GISDA
- Nos Fercher 13 Mawrth (7pm) - **Seiat y Grawys** yn Seilo
- Nos Lun 18 Mawrth (7.00pm) - **Pwyllgor Gwaith Agored Henaduriaeth Arfon yn Seilo.** Trafodir argymhellion Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru ynghylch uno'r pum enwad. Croeso i bawb.
- Nos Fawrth 19 Mawrth (6.30pm—8pm) **Pwddin a Phaned a chyngerdd gan blant Seilo.** Mynediad drwy docyn: £3 a £1 i blant.
- Nos Fercher 20 Mawrth (7pm) - **Seiat y Grawys** yng Nghapel y Maes
- Nos Iau 28 Mawrth (7pm) - **Nos Iau Cablyd;** Oedfa Gymun yn y Santes Fair
- Bore Gwener y Groglith (10) - Oedfa Gymun yn Ebeneser a gorymdaith y Pasg i ddilyn

Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am

Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

Am Eiliad

Cefais flas arbennig yn ddiweddar ar ddarllen llyfr diweddaraf Manon Steffan Ross 'Blasu'. Un o'r cymeriadau yn y llyfr yw Mai Davies, gwraig hynod o garedig sy'n bwydo hanner y pentra hefo'i chacennau a'i phwdina. Wedi iddi farw daw ei mab, Kenneth, a'i wraig Jackie, adra i'r angladd a galw yn y cartra cyn troi am adra. Bu ef yn eitha dilornus o'i fam yn gwario'i harian prin ar bobol eraill yn hytrach nag arni ei hun. Wedi iddynt gyrraedd y tŷ, daw Pegi, prif gymeriad y stori, â chaserol cig eidion iddynt, ac ymateb Kenneth, y mab, sydd wedi aros yn fy nghof:

"Eisteddais ar garreg y drws yn ymyl y bowlen, a chriò i'r gwynt. Rhoddodd Jackie ei braich amdana i, a gwyddwn, yn sydyn, pam roedd Mam wedi coginio i gymaint o bobol, pam y treuliodd ei hamser a gwario ei phres ar bobol eraill. Am fod rhai blasau, fel rhai cyffyrddiadau, yn gysur ac yn gariad."

Cofiaf, rai blynyddoedd yn ôl bellach, ddychwelyd o ysbyty wedi bod yno am ddeuddydd a'r amgylchiadau'n drist iawn. Newydd gyrraedd y tŷ oeddem a neb ohonom ag awydd mynd i chwilio am fwyd heb sôn am ei fwyta, pan ddaeth cnoc ysgafn ar y drws. Un o'r cymdogion oedd yno, wedi dod â llond powlen fawr o lobsgows i ni, ac meddai: "Dwi'n siwr nad oes yr un ohonoch yn teimlo fel cwcio heno. Mi barith hwn am deuddydd ichi." Ac wedi ei osod yn ofalus ar fwrdd y gegin, trôdd ar ei sawdl heb unrhyw ffys a'n gadael ni i wneud a fynnem â'r lobsgows. Ydi, mae rhai blasau yn gysur ac yn gariad.

Gofiwch chi Iesu Grist yn cael pryd o fwyd hefo'i ddisgyblion yn yr

Oruwchystafell ar nos Iau yr Wythnos Fawr? Mae Mathew, Marc a Luc yn cofnodi'r digwyddiad. Nid oedd dim yn anghyffredin yn hyn, doedd ond yn naturiol i Iesu fod yn awyddus i fwyta gwledd y Pasg yng nghwmni ei ddisgyblion. Ond yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y wledd oedd yn wahanol, wrth i Iesu gymeryd bara a'i dorri a'i roi iddynt a dweud, "Cymerwch; hwn yw fy nghorff." Wedi i bawb fwyta'r bara, cymerodd gwpan, a diolch, ac yna'i rhoi i'w ddisgyblion iddynt hwythau yfed ohoni. Ac meddai, "Hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, sy'n cael ei dywallt er mwyn llawer." Digwyddodd hyn ar y nos Iau cyn dydd Gwener y Groglith, y noson cyn i Jwdas ei fradychu ac i Pedr ei wadu. Trannoeth câi Iesu ei lusgo gerbron yr awdurdodau Iddewig a Rhufeinig a'i groeshoelio yn y modd mwyaf creulon.

Petha cyffredin iawn ddefnyddiodd Iesu i sefydlu Swper yr Arglwydd, bara a gwin, bwyd bob dydd pobol Palesteina. Onid oes peryg i ni gefnu ar symlwydd y Swper wrth osod y bara a'r gwin mewn platia a chwpanna arian drudfawr i'w rhannu ymhlith ein gilydd? Beth bynnag am hynny, mae'r bara a'r gwin, bob tro y cymerwn hwy, yn ein cyfeirio at y Cariad Anfeidrol a welwyd ym mywyd, marwolaeth ac atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Bob tro y bwytawn y bara ac yfed y gwin byddwn yn cofio am weithred achubol Iesu Grist er ein mwyn ac hefyd yn dathlu ei bresenoldeb gyda ni drwy yr Ysbryd

Dros y Pasg eleni eto yng Nghaernarfon, cawn gyfle i dderbyn gwahoddiad Iesu Grist i eistedd wrth ei fwrdd a chyfranogi o'r Cymun Sanctaidd. Bydd hyn yn digwydd

deirgwaith, - nos Iau Cablyd yn Eglwys y Santes Fair, bore Gwener y Groglith yng nghapel Ebeneser, a bore Sul y Pasg yn Seilo. Cofiwch bod gwahoddiad i bawb sy'n caru Iesu Grist i ymuno yn y cwmni. A chofiwch hyn, - mae "*rhai blasau, fel rhai cyffyrddiadau, yn gysur ac yn gariad.*"

Gwenda Richards

Coffâd

Mrs Alice Jones, Trefal, 20 Bryn Rhos, Rhosbodruall

Treuliodd Alice Jones gyfnod fel plismon yn Wrecsam ac yno cyfarfu â'i phriod, Trefor. Bu'r ddau yn byw yn Wrecsam am gyfnod cyn symud i Gaernarfon. Buont yn cadw siop yn Llanrug ac yng Nghaernarfon. Bu'n aelod ffyddlon o gapel Engedi a Seilo tra medrodd. Roedd hi'n wraig annwyl a thawel o ran natur. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i theulu yn eu profedgaeth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â **Mrs Lis Davies**, Llanddwyn, 10 Ffordd Menai, sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar ac â **Mrs Dilys Hughes**, 17 Llys Gwyn sydd wedi colli ei chwaer. Cydymdeimlwn â'r ddau deulu yn eu galar a'u hiraeth.

Gwaeledd

Bu sawl aelod o'r eglwys yn wael yn ystod y mis ac anfonwn ein dymuniadau da atynt oll. Mae **Mr Gareth Bryfdir Jones**, Pedwar Gwynt, Glan Beuno, wedi dychwelyd o'r

ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Felly hefyd **Mrs Dorothy Jones**, Isgraig, Lôn Ddewi. Treuliodd **Mr Mark Land**, Gorwel Môn, Ffordd Bethel a **Mr Alwynne Thomas Jones**, Dwylan, Pengelli Wyn, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae **Miss Gwyneth Edwards**, Arosfa, Pengelli Wyn a **Mr Iorwerth Williams**, Rhoslan, Sgwâr Uxbridge, yn Ysbyty Eryri yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae **Mrs Gwen Jones**, 28 Tyddyn Llwydyn, wedi symud o Ysbyty Eryri i gartref Cerrig yr Afon, ac rydym yn falch o ddeall bod **Mrs Kitty Roberts**, Arfryn, 2 Ffordd Eryri, bellach wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty ac yng nghartref Plas Gwilym.

Diolch

Diolch arbennig i **Mr Glyn Edwards**, 6 Rhês Pretoria, am ariannu côst adeiladu'r llwyfan bach yn y capel. Rydym, fel eglwys, yn gwerthfawrogi ei haelioni yn fawr iawn. Bydd Pwyllgor Chwiorydd y capel yn talu am garpedu'r llwyfan.

Rydym fel eglwys wedi derbyn hambwrdd arian hardd yn rhôdd gan deulu y diweddar Edgar Parry, Awelfryn, Stryd Thomas. Cyflwynwyd yr hambwrdd i Edgar Parry fel gwerthfawrogiad o'i waith fel ysgrifennydd capel Moreia, Caernarfon. Mae dau arysgrif ar yr hambwrdd: '*Rhodd Lewis Lewis Ysw, Quellyn i Eglwys Moriah Caernarvon 1876*' a '*Rhodd gan Swyddogion Eglwys Moriah, Caernarvon, i Mr Edgar Wyn Parry, Ysgrifennydd Olaf yr Eglwys mewn Gwerthfawrogiad o'i Wasanaeth ar ôl Dinistrio'r Capel gan Dân ar y 9fed o Orffennaf 1976.*'

Diolchwn i Llinos am ei charedigrwydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i **Rhydian Gwyn Lewis** ar gyrraedd y chwech olaf yng nghystadleuaeth 'Cân i Gymru' eleni. Cawsom bleser yn gwylio'r gystaleuaeth ar S4C ar Noson Gŵyl Ddewi.

GISDA

Eleni bydd chwirydd Seilo yn casglu arian tuag at waith Gista. Nos Lun, 11 Mawrth, bydd Cymdeithas Chwirydd Seilo yn croesawu cynrychiolwyr o GISDA i son am eu gwaith. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a byddai'n braf gweld cynrychiolaeth deilwng yno. **Bydd y 5 ceinioga o'r botel sydd yn y cyntedd bob Sul hefyd yn mynd tuag at waith Gisda.**

GISDA: Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon (yn wreiddiol). Nôd Gisda yw cynnig cyfle i bobl sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas i wella eu hansawdd bywyd fel na fyddant o dan anfantais oherwydd tlodi. Mae'n rhoddi cymorth i tua 100 o bobl ifanc bob blwyddyn ac yn gallu helpu 56 o bobl ifanc ar y tro gyda'r canlynol: tai a chymorth, addysg, hyfforddiant, gwaith, cyllidebau, iechyd, sgiliau bywyd a gwasanaethau eraill. Mae'n gwmni blaengar sy'n ymdrechu i hybu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd yn ein cymunedau ac s'yn gweithio i leihau problem digartrefedd ymhlith pobl ifanc. **Dewch i'r cyfarfod i glywed mwyn am waith Gisda.**

Basgedi a Stampia

Cofiwch bod y gweinidog o hyd yn awyddus i dderbyn basgedi gwellt.

Cofiwch hefyd gadw stampia sydd wedi eu ddefnyddio er budd Cymdeithas y Deillion. Mae bocs ar eu cyfer yng nghyntedd y capel.

Blodau'r Capel

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am flodau'r capel yn ystod mis Mawrth: **Mrs Sioned Clwyd-Jones**(3); **Mrs Margaret Roberts** (10); **Mrs Edwina Morgan** (17); **Mrs Jan Jones** (24); **Kelly a Meirion Parry** (31).

Gwefan Henaduriaeth Arfon

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar www.henaduriaetharfon.org